

Canllaw Arfer Dda SEAS Sailability ar gyfer Hyfforddwyr a Gwirfoddolwyr

Mae'r canllaw hon yn ymdrin â'r pwyntiau allweddol o arfer dda wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yn unig. Dylech hefyd ddarllen Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant y sefydliad sydd ar gael i gyfeirio atynt bob amser.

- Osgowch rhag treulio unrhyw amser arwyddocaol yn gweithio ar eich pen eich hun gyda phlant
- Peidiwch â mynd â phlant mewn car ar eich pen eich hun, waeth pa mor agos yw'r daith.
- Peidiwch â mynd â phlant i'ch cartref fel rhan o'ch gweithgaredd sefydliad.
- Lle nad oes modd osgoi unrhyw rai o'r uchod, sicrhewch mai dim ond gyda chysyniad a gwybodaeth lawn y rhai sy'n gyfrifol am y sefydliad neu riant y plentyn
- Dyluniwch raglenni hyfforddiant sydd o fewn gallu'r plentyn unigol
- Os yw plentyn yn cael anhawster gyda gwisg nofio neu gymorth hynofedd, gofynnwch iddynt ofyn i ffrind am gymorth os yw hynny'n bosibl.
- Os oes rhaid i chi helpu plentyn, sicrhewch fod pawb arall yn eich gweld yn glir, oedolyn arall os yw'n bosibl.
- Cyfyngwch ar gyfathrebiadau gyda phobl ifanc dros ffôn symudol, e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebiadau grŵp am faterion sefydliadol. Os yw'n hanfodol anfon neges unigol, copi'wch riant neu ofalwr y plentyn yn yr e-bost.

Ni ddylech fyth:

- ymgysylltu mewn gemau garw, corfforol neu sy'n bryfoclyd yn rhywiol
- ganiatáu neu ymgysylltu mewn cyffwrdd amhriodol o unrhyw fath
- ganiatáu i blant ddefnyddio iaith amhriodol heb ei herio, neu ddefnyddio iaith o'r fath pan rydych yng nghwmni plant
- gwneud sylwadau sy'n awgrymiadol rhywiol i blentyn, hyd yn oed mewn hwyl
- wrthod ymateb i honiad gan blentyn; ymatebwch bob amser
- gwneud pethau o natur bersonol y gall plant wneud dros eu hunain.

Gall fod yn angenrheidiol weithiau i wneud pethau o natur bersonol i blant, yn enwedig os ydynt yn ifanc iawn neu'n anabl. Dim ond gyda dealltwriaeth a chaniatâd llawn y plentyn (lle bo'n bosibl) a'i rieni/gofalwyr y dylid cyflawni'r tasgau hyn. Mewn argyfwng lle mae angen y math hwn o gymorth, dylid hysbysu'r rhieni yn llawn. Mewn sefyllfaoedd o'r fath mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw oedolyn sy'n bresennol yn sensitif i'r plentyn ac yn ymgymryd â thasgau gofal personol gyda'r disgresiwn mwyaf.